Côr Meibion Pontarddulais yw'r côr meibion cystadleuol mwyaf llwyddiannus yng Nghymru, ac mae'n adnabyddus yn rhyngwladol, wedi perfformio mewn sawl rhan o Ewrop, yn ogystal â Chanada a'r Unol Daleithiau.

Cyn 1960, dan arweinyddiaeth y diweddar Noel Davies MBE, bu Côr Ieuenctid Pontarddulais yn llwyddiannus wrth gystadlu mewn Eisteddfodau Ieuenctid, ond yn fuan roedd yr aelodau'n rhy hen ar gyfer y cystadlaethau hynny. Roedd awydd y dynion ifanc i barhau fel côr yn gryf, felly ffurfiwyd Côr Meibion Pontarddulais. Roedd camu i fyd y corau meibion yn benderfyniad dewr a phwysig oherwydd, bryd hynny (a hyd heddiw), roedd sawl côr enwog wedi hen ymsefydlu mewn ardal gymharol fach.

O fewn ychydig fisoedd, o ganlyniad i frwdfrydedd heintus y Cyfarwyddwr Cerdd ac ymroddiad yr aelodau, tyfodd y côr i dros 80 o leisiau, a thrwy hynny, enillwyd statws Prif Gôr.

Ym 1963 cystadlodd y côr ifanc yn yr Eisteddfod Genedlaethol am y tro cyntaf, yn Llandudno. Er mawr syndod i lawer o bobl, enillodd y côr wobr gyntaf, a hynny o flaen rhai corau enwog iawn. Dyma ddechrau record gystadleuol fwyaf llwyddiannus unrhyw gôr yng Nghymru. Mae'r côr yn falch o fod wedi ennill y wobr gyntaf dau ar bymtheg o weithiau ac un ail wobr yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru, ac mae wedi ennill cystadleuaeth y corau meibion yn Eisteddfod Ryngwladol Llangollen ddwywaith hefyd.


Er bod aelodaeth y côr wedi newid dros y blynyddoedd, mae'n prin fod wedi cwympo o dan 100. Un o'r prif resymau am hyn yw'r tîm cerddorol, a brwdfrydedd yr aelodau hefyd, yn enwedig o ystyried y gystadleuaeth frwd yn lleol â chorau meibion a diddordebau cerddorol eraill.

Mae ein haelodaeth yn amrywiol o ran oedran a chefndir, ond mae pawb yn rhan o deulu'r côr.

Cyfarwyddwr Cerdd
**Clive Phillips**

Gyfeilydd
**David Last**

PONTARDDULAIS MALE CHOIR
CÔR MEIBION PONTARDDULAIS



# PONTARDDULAIS MALE CHOIR

## Côr Meibion Pontarddulais

Ystyried ymuno â Chôr y Bont?

Mae rhai cwestiynau cyffredin y tu mewn a ddylai helpu i dawelu'ch meddwl os hoffech roi cynnig arni.

Rydym yn ymarfer bob nos
Lun a nos Fercher
7pm-9pm
yn
Ysgol Gynradd Pontarddulais,
Stryd James
Pontarddulais
SA4 8JD

(Os gwelwch yn dda, gwiriwch gyda'r Ysgrifennydd cyn mynychu)

Ni fydd clyweliad er mwyn ymuno, dim ond prawf llais syml er mwyn dewis pa lais yn y côr sydd fwyaf addas i chi.

# Cwestiynau Cyffredin!

**C. Sut mae côr meibion yn gweithio?**

Mae côr meibion wedi'i rannu'n bedwar llais: tenor uchaf, ail denor, bariton a bas (o'r llais uchaf i'r isaf). Mae pob llais yn canu ei linell ei hun. Pan fo'r pedwar llais yn canu gyda'i gilydd, maent yn creu harmoni hyfryd – ar ôl ychydig o ymarfer, beth bynnag!

**C. Beth yw'r llais gorau/hawsaf/anoddaf i'w ganu?**

Gofynnwch i unrhyw un, a bydd yn mynnu mai'r llais y mae ef yn ei ganu yw'r gorau a'r anoddaf! Yn syml, y llais gorau yw'r un sy'n gweddu ystod eich llais chi. Nid oes un llais sy'n anos nag unrhyw un arall. Ar ôl pennu eich llais, mae'n debygol y byddwch yn aros yno am weddill eich gyrfa ganu, ond fe all llais rhai pobl newid dros amser, a gellir newid llais yn dilyn trafodaeth â'r Cyfarwyddwr Cerdd.

**C. Ydw i'n canu'n ddigon da?**

Efallai y bydd hyn yn eich synnu, ond nid yw pob aelod o'r côr cystal â Pavarotti. Mae llais pawb yn unigryw a does neb yn berffaith. Yr hyn sy'n sicr yw y bydd eich llais yn gwella dros amser gyda digon o ymarfer, penderfyniad a brwdfrydedd – a phwy a ŵyr, efallai mai chi fydd yr unawdydd nesaf!

**C. A oes clyweliad?**

Dyma brif bryder pawb. Er mwyn sicrhau eich bod yn canu'r llais cywir, rhaid gwybod pa mor uchel a pha mor isel y gallwch ganu. Mae pawb yn wahanol (diolch byth!) neu byddai'r harmonïau'n eithaf diflas!
Gallai eich rhoi yn y llais anghywir niweidio'ch llais, felly rhaid cynnal prawf llais gyda'r Cyfarwyddwr Cerdd. Mae e'n ymwybodol iawn, fodd bynnag, nad yw'r rhan fwyaf o bobl yn mwynhau canu unawd, felly dim ond y ddau ohonoch fydd yn bresennol. NID yw'n debyg i'r *X Factor* a bydd yn cynnwys ychydig raddfeydd yn unig fel arfer.

**C. A yw'n bosib methu prawf llais?**

Os yw'r Cyfarwyddwr Cerdd yn teimlo, ar ôl asesu'ch llais, y gallech ei chael hi'n anodd canu mewn côr, bydd yn trafod hyn gyda chi. Fodd bynnag, pennir llais i'r mwyafrif llethol a chewch groeso cynnes i'r côr.

**C. Ni allaf ddarllen cerddoriaeth! Ydy hyn yn broblem?**

Dydych chi ddim ar eich pen eich hun! Mae nifer o aelodau'r côr nad ydynt yn gallu darllen cerddoriaeth, ond fe welwch, ar ôl oriau o syllu ar y dotiau a'r llinellau igam-ogam du, eu bod yn dechrau gwneud synnwyr. Gallwch weld pan fo'r traw yn symud i fyny ac i lawr; pa nodau sy'n hir a pha rai sy'n fyr; pryd i ganu'n dawel a phryd i fynd amdani. Mae ein Cyfarwyddwr Cerdd yn dda iawn am esbonio beth y mae angen i ni ei wybod, ac yn y pendraw mae'n aros yn y cof.

**C. Mae gan y côr repertoire mawr – sut fyddaf yn dysgu'r holl ganeuon?**

Gall ymddangos fod y gwaith i ddysgu repertoire rheolaidd y côr yn dasg fawr iawn. Serch hynny, pa mor aml mae'n rhaid i chi glywed cân cyn i chi gael eich hun yn ei chanu? Dim llawer fel arfer. Drwy ymroi i'r côr byddwch yn llyncu'r deunydd yn gyflym iawn. Mewn gwirionedd, byddwch yn poeni'ch teulu drwy ganu caneuon yn ddiymdrech wrth yrru'r car neu wneud gwaith tŷ!

**C. Beth yw'r gost?**
Mae'r côr yn elusen, felly rhaid i'r aelodau dalu cyfraniadau. Pan fyddwch yn ymuno, rhoir yr ychydig wythnosau cyntaf am ddim er mwyn gweld os byddwch yn mwynhau. Telir cyfraniadau misol wedi hynny.

**C. Faint o amser mae angen i mi ei ymrwymo?**

Mae hyn i fyny i chi yn bennaf. Mae'r côr yn ymarfer ddwywaith yr wythnos.

Mae rhai aelodau, fodd bynnag, yn cael y gall gymryd sbel i ddal i fyny os byddant yn colli wythnos neu ddwy. Po fwyaf a rowch, y mwyaf a gewch allan ohono.

**C. Rwy'n hoffi'r syniad o ganu, ond dwi ddim yn siŵr am sefyll ar lwyfan o flaen cannoedd o bobl.**

Does dim yn debyg i egni nerfus dysenni o gantorion sydd ar fin perfformio rhywbeth maent wedi bod yn ei ymarfer ers misoedd. Er y gall achosi pryder i rai, mae'r nifer mawr o gyd-gantorion a ffrindiau newydd yn rhoi hyder i chi ymlacio a mwynhau pŵer y sain y byddwch yn ei chreu gyda'ch gilydd. Ar ôl cyngerdd dda, gall gymryd diwrnodau i'r *hwyl* dawelu.

**C. Pwy sy'n rhedeg y côr?**

Y côr ei hun. Caiff ei reoli gan bwyllgor. Mae holl aelodau'r pwyllgor yn aelodau o'r côr, ac yn cwrdd i reoli busnes y côr. Mae gan bob llais gynrychiolydd ar y pwyllgor, a gellir mynegi pryderon drwyddyn nhw. Caiff yr ymarferion eu rheoli gan ein Cyfarwyddwr Cerdd.

**C. Sut allaf gael rhagor o wybodaeth?**

Rydym yn ymfalchïo yn y bobl ymroddedig o blith ein haelodau a fydd yn sicrhau cyflwyniad hwylus i'r côr. Mae ein haelodau yn deall pryderon a heriau aelodau newydd, oherwydd maent wedi'u profi eu hunain.


**Tîm Recriwtio:**
**Darran Jenkins** **Ffôn : 07800 820 917**
**Brendan Davies** **Ffôn : 07779 325 550**
**Stewart James** **Ffôn : 07784 766 634**
**recruitment@pontarddulaismalechoir.com**

**Ysgrifennydd :**
**secretary@pontarddulaismalechoir.com**